



Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol —  
National Centre  
for Learning Welsh

# Newyddion Dysgu Cymraeg

## Learn Welsh Latest

**Gwanwyn**  
**Spring 2020**

# Llongyfarchiadau i Philippa – croesawu dysgwyr i'r gymuned Gymraeg

Mae Philippa Gibson wedi dod i'r brig yng Ngwobrau Tiwtor Oedolion Ysbrydoli! y Sefydliad Dysgu a Gwaith. Enillodd Philippa y wobr am y [Tiwtor Dysgu Cymraeg](#) gorau, gyda'r beirniaid yn canmol ei llwyddiant yn dod â dysgwyr a siaradwyr Cymraeg at ei gilydd yn y gymuned. Mae Philippa yn diwtor gyda Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr, un o ddarparwyr cwrs y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Meddai Philippa: "Wedi dysgu Cymraeg yn oedolyn, dw i'n cael boddhad o ddysgu'r iaith i eraill a'u gweld yn camu ymlaen i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg leol."

## Congratulations Philippa – helping learners use Welsh in their everyday lives

Philippa Gibson has won a top award at the Learning and Work Institute's annual Inspire! Adult Tutor Awards. Philippa won the prize for best [Learn Welsh Tutor](#), with judges praising her success in bringing learners and Welsh speakers together in the community. Philippa is a tutor with Learn Welsh Ceredigion – Powys – Carmarthenshire, one of the course providers of the National Centre for Learning Welsh. Philippa said: "Having learnt Welsh as an adult, I gain satisfaction from teaching the language to others and seeing them move on to become part of the local Welsh community."



# Ymfalchïo yn ein dysgwyr

Mae'r Ganolfan yn falch o gyhoeddi i **12,680** o ddysgwyr unigryw ddilyn cyrsiau Dysgu Cymraeg yn 2017-2018, gan gymryd rhan mewn **19,490** o weithgareddau dysgu.

Cyhoeddwyd yr ystadegau yn [Adroddiad Blynnyddol](#) y Ganolfan ar gyfer 2018-2019.

Dyma'r ystadegau swyddogol cyntaf ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg ers i'r Ganolfan gymryd yr awenau yn 2016.

## Taking pride in our learners

The Centre is pleased to announce that **12,680** unique learners followed Learn Welsh courses in 2017-2018, taking part in **19,490** learning activities. This data is available in the Centre's [Annual Report](#) for 2018-2019. These are the first official statistics to be published since the Centre took responsibility for the Learn Welsh sector in 2016.



# Rhoi hwb i'r Gymraeg ym myd y celfyddydau

Bydd cyfle i bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau gryfhau eu sgiliau Cymraeg, diolch i [bartneriaeth newydd](#) rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Ganolfan. Bydd y bartneriaeth, sy'n rhan o'r cynllun 'Cymraeg Gwaith', yn darganfod anghenion iaith unigolion ac yn adnabod cyrsiau addas i roi hwb i'w Cymraeg. Meddai Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru: "Mae'r Gymraeg yn un o nodweddion amlwg ein diwylliant a'n hunaniaeth ac mae buddsoddi yn ein hiaith yn fuddsoddiad yn ein creadigrwydd a'n hamrywiaeth."

## Boosting the Welsh language in the arts

People working in the arts will be able to strengthen their Welsh language skills, thanks to a [new partnership](#) between the Arts Council of Wales and the Centre. The partnership, which is part of the Centre's 'Work Welsh' scheme, will identify the language needs of individuals and recommend suitable Learn Welsh courses. Nick Capaldi, Chief Executive of the Arts Council of Wales, said: "The Welsh language is one of the defining characteristics of our culture and identity and promoting the language is an investment in our creativity and diversity."



# Dathlu llwyddiannau cynllun Cymraeg Gwaith

Bydd brwdfrydedd ac ymroddiad dysgwyr, tiwtoriaid a chyflogwyr yn cael eu dathlu yng ngwobrau cenedlaethol cyntaf y cynllun 'Cymraeg Gwaith', sy'n cael eu cynnal yng Nghaerdydd ar 30 Mawrth. Bydd y digwyddiad yn gyfle i gydnabod llwyddiant y cynllun hyblyg hwn, sydd wedi'i deilwra ar gyfer gwahanol sectorau a chyflogwyr. [Mae manylion am docynnau yma.](#)

## Celebrating the successes of the Work Welsh scheme

The enthusiasm and commitment of learners, tutors and employers will be celebrated in the first Work Welsh national awards, which are being held in Cardiff on 30 March. The event is an opportunity to recognise the success of this flexible learning programme, which has been tailored for different sectors and employers. [Ticket information is available here.](#)



# Hwyl yng ngŵyl 'Ar Lafar'

Dewch i fwynhau hanes a diwylliant Cymru, i gwrdd â dysgwyr eraill ac ymarfer eich Cymraeg yn yr ŵyl genedlaethol i ddysgwyr, [Ar Lafar](#), ar **25 Ebrill**. Mae'r ŵyl rad ac am ddim yn cael ei chynnal ar bedwar safle: Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan; Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis; Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth ac Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre. Bydd cyfle i gymryd rhan mewn llu o weithgareddau, gan gynnwys crefftâu, cwisiau a theithiau tu ôl i'r llenni. Mae croeso cynnes i bawb.

## Join in the fun at the 'Ar Lafar' festival

All are welcome at the annual, free festival for Welsh learners, [Ar Lafar](#) (the Welsh for 'spoken'), which takes place on **25 April**. Come and enjoy Welsh history and culture, meet Welsh learners and practise your Welsh at this one-day event, which is held at four sites: St Fagans National History Museum, Cardiff; the National Slate Museum, Llanberis; The National Library of Wales, Aberystwyth, and the National Wool Museum, Dre-fach Felindre. With a range of activities including crafts, quizzes, behind-the-scenes tours, music and drama, there'll be something for everyone.

